



Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i'r Comisiynydd am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

Cyflwyniad

Prif bwrpas y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fydd cefnogi'r Comisiynydd, drwy adolygu pa mor gynhwysfawr yw'r systemau sicrwydd a roddwyd ar waith i ddiwallu anghenion ei Swyddog Cyfrifyddu ac adolygu dibynadwyedd ac uniondeb y systemau hyn. Cytunwyd ar Gylch Gorchwyl diweddaraf y Pwyllgor yn eu cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2021 ac mae ar gael ar [wefan](#) y Comisiynydd. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar waith y Pwyllgor yn cyflawni'r swyddogaethau hynny rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

Yn ymarferol, mae aelodau'r Pwyllgor yn adolygu ac yn herio'r sicrwydd a roddwyd gan uwch dîm y Comisiynydd a'i Harchwilwyr Mewnol ac Allanol. Maent hefyd yn cynghori'r Comisiynydd ar reolaeth ariannol, llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaethau mewnol.

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd yn ystod 2022/23 ac mae wedi'i sicrhau bod y strwythurau a'r gweithdrefnau llywodraethu a rheolaeth fewnol cyffredinol sydd ar waith yn briodol i gefnogi swyddogaethau a blaenoriaethau'r Comisiynydd. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi'i sicrhau bod y rheolaethau a'r gweithdrefnau hyn wedi gweithio'n effeithiol hyd at ddyddiad cyhoeddi'r ddogfen hon.

Aelodaeth

Mae gan y Pwyllgor bedwar aelod. Mae Claire Bevan yn aelod o'r Pwyllgor ers 2020 ac ym mis Ebrill 2022 derbyniodd rôl Cadeirydd y Pwyllgor. Cefnogir Claire yn y rôl hon gan aelodau eraill y Pwyllgor, sef Julia Evans, David Powell a Chris Knight. Chris Knight yw aelod diweddaraf y Pwyllgor, a dechreuodd yn y swydd ym mis Ebrill 2022. Caiff pob aelod ei benodi am gyfnod o bedair blynedd i ddechrau gyda'r opsiwn i ymestyn y cyfnod hwnnw am hyd at bedair blynedd arall.

Yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor, mae'r Pwyllgor hefyd yn cyfarfod yn anffurfiol. Yn ystod 2022/23, cynhaliwyd cyfarfodydd anffurfiol ym mis Mehefin ac ym mis Tachwedd. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi bod yn gyfle i'r Comisiynydd ddefnyddio arbenigedd amrywiol y Pwyllgor ymhellach yn ystod trafodaethau manwl ar feysydd gweithredol a strategol penodol a oedd yn cynnwys lefel uchel o risgiau anodd. Mae'r cyfarfodydd hyn hefyd yn rhoi'r cyd-destun a'r wybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor i gynorthwyo'r Comisiynydd i gyflawni ei swyddogaethau statudol.

Fel sydd wedi digwydd mewn blynyddoedd blaenorol, mae aelodau'r Pwyllgor yn dal i gael gwybod am unrhyw faterion sy'n codi mewn amser real drwy e-bost.

Ffocws y Pwyllgor

Yn unol â'r Cylch Gorchwyl, yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor cyflwynwyd adroddiadau chwarterol i'r aelodau ar Risg Strategol, Iechyd Gweithredol, Llywodraethu, Cyfathrebu, Cyllid a Seiberddiogelwch. Cyflwynir Cerdyn Sgorio Cytbwys hefyd i'r Aelodau, sy'n rhoi trosolwg o'r holl ddata llywodraethu allweddol.

Ym mhob cyfarfod, darperir trosolwg i'r Pwyllgor o Dreuliau'r Comisiynydd a'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch, ac ni chodwyd unrhyw bryderon yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, roedd y Pwyllgor wedi rhoi sylwadau a chyngor ar y polisïau allweddol canlynol:

- Gwrth-dwyll a Gwyngalchu Arian
- Gweithdrefn Gwyno
- Teithio a Chynhaliaeth
- Rhoddion a Lletygarwch
- Strategaeth Rheoli Risgiau

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi asesu effeithiolrwydd Archwilio Mewnol ac Allanol, wedi cael sicrwydd gan yr Archwilwyr Mewnol ar systemau llywodraethu allweddol y Comisiynydd, wedi adolygu Amcangyfrif y Comisiynydd, wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf ar raglen waith y Comisiynydd, ac wedi adolygu'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blyneddol ac adroddiad ISA260.

Yn ogystal â'r gwaith a nodwyd uchod, darparodd y Pwyllgor gyngor ar dri maes risg strategol sefydliadol:

- Fe wnaeth y Pwyllgor graffu ar gais cyllideb 2023/24 y Comisiynydd, a oedd yn dangos y pwysau cost sylweddol a pharhaus a oedd yn wynebu'r sefydliad ac yn dangos yr angen am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24 ac ymlaen.
- Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried achos busnes y Comisiynydd a'r arfarniad opsiynau cysylltiedig a oedd yn amlinellu'r rhesymau pam y dylai'r Comisiynydd symud swyddfa, gan sicrhau bod y prosiect yn darparu Gwerth am Arian i bwrs y wlad. Fe wnaeth y Pwyllgor gefnogi'r Comisiynydd ar y symudiad hwn.
- Fe wnaeth y Pwyllgor adolygu'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Comisiynydd i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd Cymru, sy'n adolygu cyllid y Comisiynwyr.

Materion yn ymwneud ag archwilio

Mae aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cwrdd yn breifat â'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn flynyddol. Fe wnaethon nhw gyfarfod ar 27 Ebrill 2022. Roedd yn bleser gan y Pwyllgor allu darparu sicrwydd nad oes gan y timau Archwilio Mewnol ac Allanol unrhyw bryderon am ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd gan y Comisiynydd.

Adroddiad Archwilio Allanol ar gyfer 2022 i 2023

Caiff y Cyfrifon hyn eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn unol â pharagraff 12, Atodlen 1 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Yn ei Adroddiad Archwilio ar gyfer 2022/23, dywedodd Archwilio Cymru mai eu bwriad oedd cyhoeddi barn archwilio ddiamod.

Adroddiadau Archwilio Mewnol ar gyfer 2022 i 2023

Rôl Archwilwyr Mewnol y Comisiynydd, sef TIAA, yw rhoi sicrwydd annibynnol a gwrthrychol o ran rheoli risg, rheolaethau a llywodraethu. Ym mis Ebrill 2021, fe wnaethant ddechrau contract tair blynedd, gyda'r opsiwn i ymestyn y cyfnod hwnnw am ddwy flynedd arall.

Yn ystod 2022/23, defnyddiodd y TIAA 18 diwrnod ar raglen o archwiliadau mewnol, a daeth yr adroddiad blynyddol i'r casgliad bod y "TIAA yn fodlon bod gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru systemau ariannol, rheoli risg, rheolaeth, a phrosesau llywodraethu rhesymol ac effeithiol ar waith ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn."

Ategwyd y farn archwilio hon gan yr adolygiadau sicrwydd a chynghori a gynhaliwyd yn ystod 2022/23.

Maes a Archwiliwyd	Sicrwydd a Roddwyd	Pwyntiau Gweithredu		
		Brys	Pwysig	Arferol
Llywodraethu: <ul style="list-style-type: none">Fframwaith Rheoli Risg	Sylweddol	0	0	0
Systemau Ariannol: <ul style="list-style-type: none">Rheoli CyllidebPrynu a Thalu	Sylweddol	0	0	0
	Sylweddol	0	0	0
TGCh – Fframwaith Technoleg Gwybodaeth	I Gynghori	0	1	0
Adolygiad o Weithdrefn Archebu Nwyddau a Gwasanaethau	Adolygiad ymgynghorol o'r polisi	0	0	1

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol yn adlewyrchu lefelau sicrwydd sylweddol yr adroddiadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn, sy'n dangos pa mor gadarn mae'r Comisiynydd yn llywodraethu Rheolaeth Strategol, Rheoli Risg a Systemau Ariannol.

Rheoli Risg

Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wybodaeth reolaidd am y prosesau sydd ar waith i reoli risg o fewn y sefydliad. Mae'r Gofrestr Risgiau Strategol yn cael ei diweddarau mewn amser real ac yn cael ei thrafod yn fisol gan y Tîm Rheoli Busnes, gyda phob risg yn cael ei thrafod a'i chymeradwyo ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor. O'r herwydd, gall y

Pwyllgor roi sicrwydd bod gan y Comisiynydd systemau rheoli risg cadarn ar waith fel bod modd nodi risgiau, eu monitro, a'u rheoli'n dda.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau am y cwynion, y damweiniau (gan gynnwys damweiniau fu bron â digwydd) a digwyddiadau fel dangosyddion o'r modd y mae risg yn cael ei reoli yn y sefydliad.

Datganiad Llywodraethu 2022 i 2023

Mae'r Pwyllgor yn credu fod y Datganiad Llywodraethu yn gyflawn a'i fod yn cyflwyno adlewyrchiad cywir o'r trefniadau rheoli risg a llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ac o'r materion allweddol sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn.

Effeithiolrwydd y Pwyllgor

Yn ystod 2022/23, cynhaliwyd cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor bob chwarter drwy gynhadledd fideo ym mis Ebrill, mis Gorffennaf, mis Hydref a mis Tachwedd. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan David Powell ar gyfer cyfarfodydd mis Ebrill a mis Gorffennaf. Fodd bynnag, rhoddwyd ei sylwadau a'i gyfraniadau i'r Cadeirydd er mwyn sicrhau cynrychiolaeth a mewnbwn i gyfarfodydd y Pwyllgor. Cofnodwyd presenoldeb llawn yr aelodau eraill, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r tîm Archwilio Mewnol ac Allanol.

Ym mis Ionawr 2023, cynhaliodd y Cadeirydd adolygiadau blynyddol gydag aelodau eraill y Pwyllgor. Yn dilyn hyn, cynhaliodd y Comisiynydd adolygiad blynyddol gyda'r Cadeirydd. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, mae'r Comisiynydd a'r Cadeirydd yn gallu cadarnhau ymrwymiad yr aelodau ac yn gallu darparu sicrwydd fod y Pwyllgor yn effeithiol a bod yr aelodau yn cydweithio yn dda â'i gilydd.

Dysgu a Datblygu

Gwahoddir aelodau i asesu eu hanghenion hyfforddi bob blwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, manteisiodd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar y cyfle i gael hyfforddiant ymwybyddiaeth Seiber gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol, a hyfforddiant ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth. Yn ogystal â'r sesiynau ffurfiol hyn, bu Archwilwyr Mewnol y Comisiynydd, sef y TIAA, yn cynorthwyo â gweithdy ar Gofrestr Risg Strategol y Comisiynydd.

Fel aelod newydd o'r Pwyllgor, cwblhaodd Chris Knight gyfres o sesiynau cynefino gyda'r Comisiynydd, y Prif Swyddog Gweithredu a Chadeirydd y Pwyllgor, i'w helpu ef i ddeall rôl y Pwyllgor a'r sefydliad.

Casgliad

Mae'r Pwyllgor yn falch o nodi'r berthynas waith gadarnhaol, broffesiynol ac adeiladol sydd gan dîm y TIAA â'r Comisiynydd a'i staff. Nododd y Pwyllgor fod y gwasanaeth a'r adroddiadau y maent yn eu darparu o ansawdd uchel iawn.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn falch o nodi bod gwaith tîm Archwilio Cymru yn rhoi lefel uchel o sicrwydd iddynt, ac mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi eu perthynas ddibynadwy ac argaeledd y tîm wrth ofyn am gyngor. Mae'r Pwyllgor a thîm y Comisiynydd yn gweld bod y

gwerth ychwanegol mae tîm Archwilio Cymru yn gallu ei roi o ran yr amgylchedd ehangach o gymorth mawr.

O ganlyniad i'w waith yn ystod y flwyddyn ac adroddiadau Archwilio Mewnol ac Allanol, gall y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ddarparu sicrwydd sylweddol i'r Swyddog Cyfrifyddu (y Comisiynydd) fod y trefniadau llywodraethu, rheolaeth ariannol a rheoli risg yn parhau i fod yn rai cryf ac wedi bod yn gadarn a dibynadwy yn ystod blwyddyn ariannol 2022/2023.

Hoffai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ddiolch i'r TIAA am eu gwaith wrth ymgymryd â'r trefniadau Archwilio Mewnol ar gyfer y Comisiynydd. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar hefyd i Archwilio Cymru am eu gwaith yn archwilio'r cyfrifon blyneddol.

Ni fyddai modd i'r Pwyllgor weithredu'n effeithiol heb gymorth a chefnogaeth y Comisiynydd, sydd hefyd yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer ei swyddfa. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn iddi am hyn, a hoffai hefyd ddiolch i'r holl staff sydd wedi rhoi o'u hamser i ymwneud â'r Pwyllgor a chefnogi ei waith. I gloi, hoffai'r Pwyllgor ddiolch yn arbennig i Elen Miles am y cymorth ysgrifenyddol amhrisiadwy a gafwyd ganddi.

Claire Bevan 27 Gorffennaf 2023

Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg